# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

## Cofnodion (LC5(3)-08-09)

**Dyddiad: 28 Ebrill 2009**
**Amser: 9.00am – 11.00am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Lesley Griffiths AC
Darren Millar AC
Leanne Wood AC
Mick Bates AC

**Y Swyddfa Ddeddfwriaeth**

Anna Daniel, Clerc
Olga Lewis, Dirprwy Glerc

**Eraill yn bresennol**

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol

**Tystion**

Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Nerys Arch, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Huw Onllwyn Jones, Pennaeth yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Daeth ymddiheuriadau i law gan Alun Davies AC

**2. Gorchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009**

**2.1 Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones AC**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones AC.

Cytunodd y Gweinidog dros Dreftadaeth i gyflwyno tystiolaeth bellach ynghylch:

- a allai Adran (b) Gorchymyn arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 gynnwys unrhyw fath o gytundebau rhwng cyrff cyhoeddus a chwmnïau sector preifat (ee, trwyddedau darlledu a gyflenwir gan Ofcom) nad ydynt yn drefniadau gyda chyflenwyr allanol;

- a ellir cynnwys partneriaethau (ee, byrddau gwasanaeth lleol neu bartneriaethau plant a phobl ifanc) o fewn sgôp y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am dystiolaeth gan y sector bancio.

**Eitem 3: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

3.1 Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 5 Mai 2009.